

## *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

### **Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 10fed o Fawrth 2015.**

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Iwan Lloyd Williams (Cadair), Justin Davies, Barry Bracegirdle, Dyfed Edwards (Cyngorydd Sir) - Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws - Llanllyfni; D Martin Williams, Sharon Wynne Jones, Dafydd Glyn Owen, Harry Wyn Owen - Talysarn; Eurig Wyn Evans – Nebo.

Cafwyd newyddion trist iawn am farwolaeth T Les Jones, a fu'n aelod brwd o'r Cyngor Cymuned am gyfnod o 50 mlynedd, aelod o'r Cyngor Sir a'r Parc Cenedlaethol. Bydd mawr golled ar ei ol. Cafwyd munud o dawelwch i gofio, a gair gan OP Huws a Dafydd Glyn Owen. .

#### **Cynllunio**

Derbyniwyd cais am estyniad ac addasiadau yn dilyn difrod tan i Allt Felan, Penygroes. Doedd dim gwrthwynebiad.

#### **Gohebiaeth.**

##### **Cyngor Gwynedd**

Derbyniwyd yr ymatebion canlynol i gwynion:

–Coed Trem y Wyddfa (BT) - BT wedi ymateb drwy ofyn i'r trigolion gysylltu gyda hwy bob tro mae problem efo'r gwasanaeth ffon. Byddwn yn cysylltu eto gyda Cartrefi Cymunedol i ofyn wrthynt drimio'r coed ar dir Cae Catrin, gan fod y brigau yn amharu ar ffon rhif 82.

-Tyllau ar gylchfan Poveys - y safle wedi ei archwilio, a'r gwaith wedi ei gynnwys ar raglen waith y Cyngor i'w wneud pan fydd cyllid yn caniatáu.

-Tyllau ar Ffordd Trem y Wyddfa - y safle yn cael ei archwilio.

-Torri gwair Nebo - y Cyngor wedi gofyn i'r gweithwyr i gymryd mwy o ofal i beidio blocio'r draeniau.

-Parcio – Colin Jones, swyddog Parcio Cyngor Gwynedd am fynychu cyfarfod y Cyngor mis Ebrill.

-Bin Steshon Talysarn – doedd y bin hebi ei dynnu oddi yno fel yn yr eost, ond yn hytrach caead newydd wedi ei roi arno, ac yn llawn dwr.

#### **Materion Pentrefi.**

Talysarn Tipio ar ol pasio Dorothea House; Llwybr 14, Hyfrydle Terrace - mwsog ar wyneb y llwybr – byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd; Lon fawr rhwng Talysarn a Penygroes - ysbwriel angen ei lanhau; Pryder bydd y trac becs newydd yn Talysarn yn denu ysbwriel yn y dyfodol – gofynwyd i'r Cyngorwyr gadw llygad ar y sefyllfa.

Llanllyfni Twll dyfn ar allt Tyddyn Agnes ar ol effaith y dwr y llynedd; Cyflwr adeilad y Quarry yn achosi pryder – byddwn yn holi Cyngor Gwynedd.

Penygroes Ysbwriel ar dir Cae Catrin – byddwn yn cysylltu efo Cartrefi Cymunedol; pamffledi baw cwn – cafwyd amcan o brisiau, a byddwn yn dilyn hyn i fyny efo Peter Simpson.

Nebo Tipio slei bach ar y ffordd at y llyn. Byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd